Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (1981)
Y Gorchymyn Milheintiau (1989)

# Ffurflen Gofrestru Wirfoddol ar gyfer Ceidwaid Ffuredau neu *Mustelinae* eraill

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn argymell y dylech gofrestru â ni os ydych yn cadw ffuredau neu aelodau eraill o deulu'r *Mustelinae*. Y rheswm dros hyn yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â SARS-CoV-2 (y feirws sy'n achosi COVID-19 mewn pobl), y gwyddys ei fod hefyd yn gallu heintio ffuredau. Os cofrestrwch â ni, bydd modd cysylltu â chi os bydd achosion ymhlith ffuredau neu *Mustelinae* eraill i roi cyngor i chi ar ddiogelu iechyd y cyhoedd ac atal clefydau a/neu am resymau yn ymwneud â phrofi neu wyliadwriaeth. Bwriad gweinyddiaethau'r DU yw y bydd cofrestru yn orfodol yn y dyfodol.

Llenwch y ffurflen hon os mai chi sy'n gyfrifol am ofalu am ffuredau, carlymod, ffwlbartiaid, gwencïod neu groesiadau o'r rhain o ddydd i ddydd (h.y. os mai chi yw'r ceidwad). Gall pob ceidwad gofrestru ei anifeiliaid ond rydym yn cynghori'n gryf y dylai unrhyw un â phum anifail neu fwy gofrestru.

**Cwblhewch bob eitem â seren (*).**

Cysylltwch â Ferret.Registration@apha.gov.uk i gael help i lenwi'r ffurflen, gan roi rhif ffôn os hoffech i ni eich ffonio.

## *Adran 1: Manylion y Ceidwad

Rhowch fanylion y person sy'n gyfrifol am y ffuredau/*Mustelinae* (y ceidwad):

*Teitl (ticiwch): Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐
Arall (nodwch) ________

*Cyfenw: ________ *Enw Cyntaf: ________

*Cyfeiriad Post: ________

*Cod Post: ________

*Rhif Ffôn: ________ Rhif Ffôn Symudol: ________

Cyfeiriad e-bost: ________

*Ai chi yw perchennog yr anifeiliaid hefyd? Ie ☐ Na ☐

Os oes gennych enw masnachu fel unig fasnachwr, nodwch ef ________

Rhowch wybod i ni sut yr hoffech i ni gysylltu â chi: Post ☐ E-bost ☐

Ticiwch y blwch hwn os hoffech i ni ohebu â chi yn Gymraeg o hyn ymlaen ☐

## *Adran 2: Lleoliad

Os ydych yn cadw'r ffuredau/*Mustelinae* mewn lle gwahanol i'r cyfeiriad a roddwyd yn adran 1, rhowch y manylion isod:

| **Enw(au) a Chyfeiriad(au)'r Lleoliad** (cofiwch gynnwys * y cod post) | **Rhif Daliad (CPH) y lleoliad, os oes un eisoes wedi'i roi** (fel arall, byddwn yn rhoi un i chi) | ***Cyfeirnod Map** (bydd hwn i'w weld ar gopi caled o fap AO, neu gallwch ddefnyddio gwefan fel UK Grid Reference Finder. Fel arall, defnyddiwch system what3words) |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

***Adran 3: Ffuredau/***Mustelinae*

Rhowch fanylion y **ffuredau**/*Mustelinae* a gedwir:

| ***Rhywogaethau'r Ffuredau/*Mustelinae* a Gedwir** (dewiswch o'r gwymplen) | ***Niferoedd a Gedwir** | ***Pam rydych yn cadw'r rhywogaethau hyn?** (dewiswch o'r prif resymau yn y tabl isod) | ***Enw'r lleoliad lle y caiff pob rhywogaeth ei chadw** |
|---|---|---|---|
| Dewiswch:<br>Nodwch y rhywogaeth os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | | Dewiswch:<br>Nodwch y rheswm os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | |
| Dewiswch:<br>Nodwch y rhywogaeth os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | | Dewiswch:<br>Nodwch y rheswm os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | |
| Dewiswch:<br>Nodwch y rhywogaeth os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | | Dewiswch:<br>Nodwch y rheswm os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | |
| Dewiswch:<br>Nodwch y rhywogaeth os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | | Dewiswch:<br>Nodwch y rheswm os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | |
| Dewiswch:<br>Nodwch y rhywogaeth os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | | Dewiswch:<br>Nodwch y rheswm os dewiswyd 'Eraill' yn y gwymplen: | |

| **Rhywogaethau Ffuredau/*Mustelinae*** | **Rheswm** | |
|---|---|---|
| Ffuredau | Anifail anwes | Canolfan ailgartrefu |
| Ffwlbartiaid | Arddangos (gall hyn gynnwys arddangosfa megis sw) | Bridio er mwyn gwerthu |
| Mincod | Adloniant cyhoeddus/addysg/therapi | Canolfan bywyd gwyllt |
| Gwencïod | Siop anifeiliaid anwes | Hela/rheoli plâu |
| Carlymod | Mewnforio/allforio | Arall (nodwch) |
| Eraill (nodwch) | Ymchwil | |

**Adran 4: Datganiad**

Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gofrestru hon yn gywir a'm bod dros 18 oed:

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |

**Cadw eich manylion yn gyfredol**

Dylech gysylltu ag APHA o fewn mis:

- os na fyddwch yn cadw ffuredau/*Mustelinae* nac yn berchen arnynt mwyach
- os bydd eich manylion cyswllt yn newid
- os byddwch yn newid y rhywogaeth a gadwch
- os byddwch yn dechrau cadw rhywogaethau/da byw eraill.

**Cyflwyno eich ffurflen wedi ei chwblhau**

Drwy e-bost: Ferret.Registration@apha.gov.uk

Drwy'r post:
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerdydd
Cromlin West
Parc Busnes Cardiff Edge
Longwood Drive
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 7YU

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

**HYSBYSIAD DIOGELU DATA A PHREIFATRWYDD**

Caiff y Gofrestr Ffuredau ei chynnal gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), sef un o asiantaethau gweithredol Defra a Llywodraeth Cymru, a fydd yn prosesu eich data yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Byddwn yn defnyddio eich data i gasglu gwybodaeth am ble ac at ba ddibenion y caiff ffuredau a *Mustelinae* eraill eu cadw, er mwyn llywio unrhyw waith gwyliadwriaeth ar gyfer SARS-CoV-2 (y feirws sy'n achosi COVID-19). Caiff y data a gesglir eu defnyddio hefyd i lywio polisïau a chanllawiau i geidwaid ffuredau er mwyn lleihau'r risg o ledaenu SARS-CoV-2 ymhlith yr anifeiliaid hyn ac i bobl.

Mae'n bosibl y caiff eich manylion eu rhannu ag asiantaethau eraill ac adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, megis APHA ac Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion rheoli clefydau anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd mewn perthynas â SARS-CoV-2. Mae SARS-CoV-2 mewn mamaliaid a allai gael yr haint, megis ffuredau a *Mustelinae*, yn peri risg i iechyd pobl os caiff amrywiolyn o'r feirws ei drosglwyddo o famaliaid heintiedig i'r boblogaeth ddynol.

Os bydd achosion o SARS-CoV-2 ymhlith y boblogaeth o ffuredau neu *Mustelinae* a gedwir, mae'n bosibl y bydd APHA yn cysylltu â chi i roi cyngor a gwybodaeth i chi am amddiffyn eich anifeiliaid, a'ch amddiffyn eich hun, rhag cael eich heintio â SARS-CoV-2.

Noder y gall fod angen i'r weinyddiaeth lywodraethol berthnasol arfer pwerau o dan y Gorchymyn Milheintiau (1989) a'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (1981) er mwyn rheoli SARS-CoV-2 ymhlith mamaliaid drwy gyfyngu ar symud mamaliaid heintiedig neu ei gwneud yn ofynnol profi mamaliaid am bresenoldeb SARS-CoV-2. P'un a fydd yr anifeiliaid wedi'u cofrestru ar Gofrestr Ffuredau Prydain Fawr ai peidio, os bydd mamaliaid megis ffuredau a *Mustelinae* yn peri bygythiad uniongyrchol a sylweddol i iechyd pobl ac adferiad yn dilyn pandemig COVID-19, gall y weinyddiaeth lywodraethol berthnasol ei gwneud yn ofynnol difa anifeiliaid mewn perthynas â SARS-CoV-2.

Mae gweinyddiaethau'r DU yn bwriadu gwneud y Gofrestr Ffuredau yn orfodol yn y dyfodol i'r rhai sy'n cadw mwy na nifer penodol o ffuredau neu *Mustelinae* ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Caiff yr holl ddata a roddir ar y gofrestr wirfoddol eu trosglwyddo'n awtomatig i'r system orfodol newydd, hyd yn oed os byddwch yn cadw llai o anifeiliaid na'r trothwy.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i gadw ffuredau, bydd APHA fel arfer yn cadw eich data personol am saith mlynedd, ond yn eu cadw am fwy o amser os byddwn wedi gorfod gwneud mwy na chofrestru eich anifeiliaid o ganlyniad i'r sefyllfa o ran y clefyd. Fodd bynnag, tra bydd y broses gofrestru'n un wirfoddol, gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol (mae manylion cyswllt APHA i'w gweld uchod). Caiff eich cais ei dderbyn oni fydd angen y data at ddibenion iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid a'i bod er budd y cyhoedd eu cadw. Cewch wybod canlyniad eich cais o fewn 30 diwrnod. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag enquiries@apha.gov.uk.

**Eich hawliau:**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol sydd gan APHA, Defra a Llywodraeth Cymru amdanoch, a gweld y data hynny
- i ofyn i ni gywiro anghywirdebau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu eich data, neu gyfyngu ar hynny (dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i ni ‘ddileu’ eich data (dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (dan amgylchiadau penodol)
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Os hoffech gysylltu â'r Llywodraeth ynglŷn â'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Defra neu Lywodraeth Cymru:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Data Protection Officer
Defra
Marsham Street
Westminster
SW1 4DF

E-bost: DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk